Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# ACT Schools

## Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2020

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag ACT Schools

Ysgol ddydd annibynnol arbennig sydd â champysau yng Nghaerdydd a Chaerffili yw ACT Schools.

Mae'r ysgol yn darparu addysg ar gyfer disgyblion rhwng 11 ac 16 mlwydd oed. Mae gan bob un o'r disgyblion anghenion addysgol arbennig yn ymwneud yn benodol ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Caiff disgyblion eu lleoli yn yr ysgol gan gynghorau Caerdydd, Caerffili a Bro Morgannwg.

Gweinyddir yr ysgol gan ACT (Holdings) Ltd, sef is-gwmni Coleg Caerdydd a'r Fro.

Ar hyn o bryd, mae 107 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n derbyn gofal gan eu hawdurdod lleol, ac mae gan un o bob pump o'r disgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig.

Mae'r pennaeth addysg 11-16 wedi bod yn ei swydd ers i'r ysgol agor ym mis Ebrill 2018.

## Prif ganfyddiadau

### *Cryfderau*

At ei gilydd, mae staff yn adnabod eu disgyblion yn dda ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o’u hanghenion emosiynol. Mae hyn yn helpu datblygu ymddiriedaeth disgyblion yn eu staff addysgu a’u staff cymorth, ac yn cynyddu eu hyder.

Mae llawer o ddisgyblion yn ymddwyn yn briodol ac yn ymgysylltu’n dda â’u dysgu. Maent yn dangos diddordeb yn eu gwaith, ac yn dal ati i ganolbwyntio.

Mae’r ysgol yn datblygu ystod ddefnyddiol o bartneriaethau strategol er budd disgyblion. Er enghraifft, mae bellach yn cymryd rhan yng ngrŵp adolygu addysg heblaw yn yr ysgol awdurdod lleol, sy’n helpu sicrhau bod anghenion disgyblion yn cael eu diwallu’n briodol.

Yn ddiweddar, mae’r ysgol wedi penodi nifer o addysgwyr hynod brofiadol o amrywiaeth o gefndiroedd perthnasol i ffurfio bwrdd ymgynghorol. Mae’r bwrdd yn dechrau darparu her a chymorth cryf i’r ysgol mewn meysydd fel sut mae’n cymedroli prosesau arsylwi gwersi i sicrhau gwerthusiadau mwy cywir o addysgu a dysgu.

### *Meysydd i’w datblygu*

Fel rhan o’r broses derbyniadau ac atgyfeirio, mae’r ysgol yn gofyn am wybodaeth am ddisgyblion o’r awdurdodau lleoli. Fodd bynnag, nid oes ffocws digon cryf o ran gofyn am wybodaeth am lefelau gallu disgyblion. Mae hyn yn effeithio ar allu’r ysgol i gynllunio’n ddigon da ar gyfer anghenion unigol yr holl ddysgwyr.

Mae’r ysgol yn defnyddio templed generig i werthuso ansawdd yr addysgu a’r dysgu. Fodd bynnag, nid oes ffocws digon cryf ar ansawdd cynnydd disgyblion a nodi’r cryfderau a’r meysydd penodol y mae eu hangen ar staff i wella’n unigol, ac ar lefel ysgol gyfan.

Fel rhan o gynllunio gwelliant, mae’r ysgol yn gweithio’n galed i adeiladu rhwydweithiau gyda darparwyr eraill, ond nid yw hyn yn cynnwys cyfleoedd i staff arsylwi arfer effeithiol yn rhywle arall. Hefyd, ar y cyfan, ni fu ffocws digon cryf ar ddatblygu gwybodaeth broffesiynol staff o ran pynciau a medrau.

Nid yw’r ysgol yn cydymffurfio’n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003. Yn benodol, yn ystod amseroedd egwyl, ar un o’r campysau, gwelwyd ychydig o ddisgyblion yn ysmygu, ac esgusodwyd hyn gan staff.

### Argymhellion

**Dylai’r ysgol:**

**A1. Sicrhau bod yr ysgol yn cydymffurfio’n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003**

**A2. Gwella ceisiadau am wybodaeth gan awdurdodau lleol, mewn perthynas â lefelau gallu disgyblion, cyn derbyn disgyblion ar gofrestr yr ysgol**

**A3. Gwella’r cynnydd ymhellach wrth fynd i’r afael â’r ddau argymhelliad o’r ymweliad monitro diwethaf**

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol

**Argymhelliad 1: Cryfhau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant**

Mae'r ysgol wedi rhoi blaenoriaeth uchel i gryfhau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant. Er enghraifft, mae wedi mireinio a pheilota cyflwyno systemau newydd neu wahanol mewn meysydd fel grwpiau ffocws a hunanwerthuso'r cwricwlwm i helpu gyrru gwelliant yn ei flaen. Mae'r dull hwn yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at ddatblygu diwylliant o welliant parhaus ar draws yr ysgol.

Ers yr ymweliad monitro diwethaf, mae'r ysgol yn gwneud defnydd gwell o wybodaeth mewn perthynas â pherfformiad disgyblion ac agweddau ar les, fel presenoldeb ac ymddygiad. Defnyddir y wybodaeth hon yn briodol i raddau helaeth i gymharu a chyferbynnu deilliannau dros gyfnod. Fodd bynnag, ni ddefnyddir y wybodaeth yn ddigon da bob amser i osod targedau ysgol gyfan realistig ac uchelgeisiol ar gyfer gwella, sy'n briodol fesuradwy. Mewn ychydig o achosion, nid yw diffygion a nodwyd gan brosesau hunanasesu'r ysgol yn cysylltu'n ddigon agos â blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwella.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer casglu safbwyntiau disgyblion, rhieni ac awdurdodau lleoli, wedi'u datblygu'n ddigonol.

**Argymhelliad 2: Datblygu cynorthwywyr addysgu ymhellach, a gwneud y defnydd gorau ohonynt**

Er bod gan yr ysgol nifer o elfennau o weithgareddau a ddylai helpu cryfhau rôl cynorthwywyr addysgu, nid oes cynllun clir ar waith i fynd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Er enghraifft, i ddatblygu a chryfhau egwyddorion addysgu cynhwysol ymhellach, mae'r ysgol wedi datblygu fframwaith addysgu a dysgu, ac mae'n peilota'r defnydd ohono. Mae'r fframwaith hwn yn ystyried rôl staff addysgu mewn cefnogi dysgu effeithiol yr holl ddisgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r fframwaith hwn yn ymestyn i gynorthwywyr addysgu.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi cryfhau ei threfniadau i gefnogi anghenion cwricwlwm ac anghenion ehangach y disgyblion. Er enghraifft, sefydlwyd rôl y gweithiwr ymyrraeth i ddarparu cymorth penodol ar gyfer disgyblion mewn llythrennedd a rhifedd. Yn ychwanegol, ychydig iawn o staff cymorth sydd wedi cael eu hyfforddi mewn dull i ennill dealltwriaeth well o'r rhesymau sy'n cyfrannu at ymddygiad disgyblion. Mae'n rhy gynnar i werthuso effaith y datblygiad diweddar hwn.

Yn ystod gwersi a arsylwyd ar yr ymweliad hwn, mae bron pob un o'r cynorthwywyr addysgu yn darparu cymorth ac anogaeth effeithiol i ddisgyblion.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

### *Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol*

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### *Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol disgyblion*

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 2.

### *Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion*

Nid yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio yn llawn ar gyfer y safon hon. Er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, dylai'r ysgol:

- Baratoi a gweithredu polisïau ysgrifenedig i ddiogelu a hyrwyddo lles plant sy'n ddisgyblion yn yr ysgol i gydymffurfio â Chylchlythyr 005/2008 3[2][b] Llywodraeth Cynulliad Cymru

### *Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff*

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### *Safon 5: Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion*

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

### *Safon 6: Darparu gwybodaeth*

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 6.

### *Safon 7: Y modd yr eir i'r afael â chwynion*

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 7.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, gallai Llywodraeth Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Nid yw’r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003 ar hyn o bryd.  I gydymffurfio’n llawn â’r gofynion hyn, dylai’r ysgol fynd i’r afael â’r materion a nodwyd uchod ar gyfer pob safon.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad cyfyngedig hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 163 Deddf Addysg 2002. Prif ddiben arolygu o dan yr adran hon yw adrodd ar gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol 2003. Mewn ysgolion sy'n darparu addysg feithrin nas cynhelir, mae'r adroddiad hwn hefyd yn bodloni gofynion Atodlen 26 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2020: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 15/05/2020